
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	11.12.20
Pwnc / Subject:	Cyngor y Gweithlu Addysg: gorchmynion atal dros dro

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Mae Estyn yn cefnogi egwyddorion cyffredinol gorchmynion atal dros dro (GADD) Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Rydym yn deall sut bydd y cynigion yn mynd i'r afael ag argymhelliad 21 o adroddiad y pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr Ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon lle mae'n argymhell y dylai cylch gorchwyl CGA gael ei ehangu i roi'r grym iddo i atal athrawon mewn amgylchiadau priodol. Rydym yn cydnabod hefyd y byddai'r gorchmyn arfaethedig yn galluogi'r Cyngor i atal yr holl categorïau Personau Cofrestredig, nid athrawon ysgol yn unig. Rydym yn cefnogi'r angen am y newid pwysig hwn i ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc.

Mae Estyn hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fydd y Cyngor yn cynnal cyfarfodydd cychwynol ac adolygiadau.

Rydym wedi amlinellu ychydig o bwyntiau pellach i'r Cyngor eu hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ym mharagraff 32, amlinellu'n fwy eglur pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i awgrymu y gallai'r heddlu fod yn fwy tebygol o atgyfeirio honiadau difrifol at y Cyngor o dan Ddatgeliad yr Heddlu o dan y Gyfraith Gyffredin.
- Adolygu'r datganiadau ym mharagraff 56 i roi mwy o eglurder ynghylch sut byddai risgiau i'r Person Cofrestredig a'r cyhoedd yn cael eu cydbwyso. Prif ddiben GADD yw sicrhau amddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc. Os yw'r honiad yn codi pryderon diogelu sylweddol, rydym yn awgrymu y dylai'r Cyngor, fel arfer, osod GADD beth bynnag fo amgylchiadau'r unigolyn.
- Ym mharagraff 70 a 72, byddai'n ddefnyddiol ychwanegu'r dyddiadau i nodi pa bryd fyddai'r GADD yn dechrau, ac yn dod i ben.
- Ym mharagraff 71, dylai'r ail a'r trydydd pwynt bwled gydnabod y gall y Person Cofrestredig fod wedi'i gyflogi mewn mwy nag un darparwr neu wedi'i gofrestru gyda mwy nag un asiantaeth addysgu.
- Ym mharagraffau 78 ac 80, nid yw'r cynnig yn datgan yn benodol a oes hawl gan y Person Cofrestredig i gael cwmni unigolyn arall mewn gwrandawriad i'w gefnogi.
- Ym mharagraffau 84- 87, nid yw'r cynnig yn amlinellu p'un a fyddai disgwyl i'r panel adolygu gynhyrchu adroddiad ysgrifenedig o'r adolygiad o'r GADD, ac â phwy fyddai hwn yn cael ei rannu.

Yn ychwanegol at yr uchod, ceir y potensial yn y newid hwn i leihau fymryn y risg y bydd personau anaddas yn cael eu cyflogi mewn ysgolion annibynnol, gan nad yw'n ofynnol i weithlu'r ysgolion hynny gofrestru gyda CGA ar hyn o bryd. Er enghraifft, gallai GADD fod yn fwy tebygol o ymddangos ar wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar yr adeg recriwtio, neu byddai'n glir pe bai'r cyflogwr (neu'r ysgol annibynnol) yn gwirio cofrestr CGA. Fodd bynnag, hoffem

ddefnyddio'r cyfle hwn i ailddatgan ein barn y dylai rheoliadau gael eu gwneud i fynnu bod staff mewn ysgolion annibynnol fod wedi cofrestru gyda CGA.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – A ydych chi'n cytuno â'n cynigion i roi pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim i'r Cyngor? (Gweler paragraffau 22–47 o'r ddogfen ymgynghori am y rhesymau pam rydym o'r farn y dylai'r Cyngor gael y pwerau hyn).

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Rydym yn cytuno ei fod yn ddiwygiad priodol i ddarparu'r pŵer i'r Cyngor i osod gorchymyn atal dros dro ar gyfer unrhyw aelod lle ceir honiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol neu lle honnir bod y Person Cofrestredig wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd. Rydym yn cytuno bod y tri rheswm a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori i gefnogi'r diwygiad hwn yn rhesymol. Yn benodol, rydym yn cytuno y byddai gosod gorchymyn atal dros dro yn helpu diogelu plant pe bai unigolyn yn ceisio ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant/tiwtora preifat neu gyflogaeth mewn ysgol annibynnol tra'i fod wedi'i atal o'i rôl mewn unrhyw ddarparwr addysg, tra'n aros ymchwiliad i'w ymddygiad.

Fodd bynnag, ym mharagraff 32, nid yw'r cynnig yn amlinellu'r dystiolaeth ategol yn glir i awgrymu y gallai'r heddlu fod yn fwy tebygol o atgyfeirio honiadau difrifol at y Cyngor o dan Ddatgeliad yr Heddlu o gan y Gyfraith Gyffredin, pe bai pwerau GADD gan y Cyngor.

Cwestiwn 2 – A ydych chi'n cytuno â phrawf 'budd y cyhoedd' a'r ystyriaethau pellach y byddai'r Cyngor yn eu defnyddio wrth ystyried a ddylai wneud gorchmynion atal dros dro interim? (Gweler paragraffau 48–57 o'r ddogfen ymgynghori)

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Rydym yn cytuno â'r prawf budd y cyhoedd a'r holl ystyriaethau eraill y byddai'r Cyngor yn eu cymhwyso wrth ystyried p'un ai i wneud GADD. Rydym yn falch fod y cynnig yn diffinio ystyr pryderon difrifol a sylweddol yn glir i gynorthwyo'r panel i wneud ei benderfyniad. Rydym hefyd yn cefnogi'r cynnig y byddai'r panel, cyn

ystyried GADD, yn gofyn am gyngor gan yr heddlu pe bai'r atgyfeiriad wedi dod o ffynhonnell heblaw am yr heddlu, y cyflogwr neu'r GDG.

Nid ydym yn cytuno'n llwyr â'r datganiadau ym mharagraff 56. Prif ddiben GADD yw sicrhau amddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc. Ni ddylai'r canlyniadau personol, ariannol a phroffesiynol ar gyfer y Person Cofrestredig gael eu hystyried os ystyrir bod yr honiad o natur ddiogelu ddifrifol neu sylweddol i fynnu GADD. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai'r Cyngor osod GADD, beth bynnag yw amgylchiadau personol yr unigolyn. Fodd bynnag, os yw'r haerriad o natur ddifrifol ond nad yw'n ymwneud â diogelu, yna byddai angen i'r Cyngor ystyried cymesurolddeb gosod GADD ac effaith ei weithredu ar amgylchiadau personol yr unigolyn. Byddai'n fuddiol darparu mwy o eglurder ynghylch sut byddai risgiau i'r Person Cofrestredig a'r cyhoedd yn cael eu cydbwysu.

Cwestiwn 3 - A ydych chi'n cytuno â'r weithdrefn arfaethedig ar gyfer gwneud gorchmynion atal dros dro interim? (Gweler paragraffau 58-72 o'r ddogfen ymgynghori.)

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Yn gyffredinol, mae'r ddogfen ymgynghori'n amlinellu cynigion priodol i'r weithdrefn gwneud GADD. Fodd bynnag, teimlwn y dylid gwneud y diwygiadau canlynol i gryfhau'r gweithdrefnau:

Ym mharagraff 70, byddai'n ddefnyddiol ychwanegu'r dyddiad pan ddylai'r GADD ddod i ben.

Ym mharagraff 71, dylai'r ail a'r trydydd pwynt bwled gydnabod y gall y Person Cofrestredig fod wedi'i gyflogi mewn mwy nag un darparwr a gyda mwy nag un asiantaeth addysgu ac felly dylai'r geiriau cyflogwr ac asiantaeth addysgu fod yn y lluosog.

Ym mharagraff 72, dylai'r hysbysiad o ran gwneud GADD gynnwys y dyddiad y mae'n dechrau a'r dyddiad y byddai'n dod i ben hefyd.

Mae CGA wedi gwneud argymhelliad a rannodd gyda ni y gellir caniatáu i banelydd barhau i eistedd mewn adolygiadau o GADDau lle'r oedd yn eistedd ar y panel gwreiddiol, gan ei fod o'r farn bod rhinwedd i sicrhau dilyniant. Mae hwn yn rhywbeth y gallai fod angen ei ystyried ymhellach. Yn ogystal, yn ei ymateb, mae CGA yn awgrymu'n synhwyrol mai dim ond os daw tystiolaeth newydd ar gael sy'n berthnasol i'r achos, neu fod newid amgylchiadau sylweddol wedi digwydd ers gosod y gorchymyn interim, y gall person cofrestredig ofyn bod panel yn cynnal adolygiad o orchymyn atal dros dro.

Cwestiwn 4 – A ydych chi'n cytuno â'r cynigion i roi'r hawl i gyn-Bersonau Cofrestredig ofyn am adolygiad o'r gorchmynion atal dros dro interim sydd wedi'u gosod arnynt? (Gweler paragraffau 73–83 o'r ddogfen ymgynghori.)

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Rydym yn cytuno, yn gyffredinol, bod y cynigion yn briodol. Ym mharagraffau 78 ac 80, mae'n aneglur p'un a oes hawl gan y Person Cofrestredig i gael cwmni unigolyn arall mewn gwrandawriad i'w gefnogi. Mae hyn yn wahanol i gael eich 'cynrychioli' a dylid rhoi gwedd gliriach ar hyn.

Mae'n briodol cynnig na fyddai panel y gwrandawriad adolygu yn cynnwys yr un unigolion a oedd ar y panel gwreiddiol a osododd y GADD.

Cwestiwn 5 – A ydych chi'n cytuno â'n cynigion y dylai'r Cyngor adolygu gorchmynion atal dros dro interim yn rheolaidd? (Gweler paragraffau 84–87 o'r ddogfen ymgynghori.)

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn ymddangos yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn amlinellu p'un a fyddai disgwyl i'r panel adolygu gynhyrchu adroddiad ysgrifenedig o'r adolygiad o'r GADD, ac â phwy fyddai hwn yn cael ei rannu.

Cwestiwn 6 – A ydych chi'n cytuno â'n cynigion ynghylch pryd y câi gorchmynion atal dros dro interim eu diddymu gan y Cyngor? (Gweler paragraffau 88–89 o'r ddogfen ymgynghori.)

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Mae'r rhesymau a gynigiwyd i ddiddymu gorchymyn atal dros dro yn ymddangos yn briodol.

Cwestiwn 7 – A ydych chi'n cytuno â'n cynigion mewn perthynas â defnyddio rheolau gweithdrefnol y Cyngor wrth wneud penderfyniadau i osod gorchymynion atal dros dro interim, ar adolygu gorchymynion atal dros dro interim ar gais cyn-Bersonau Cofrestredig, a bod y Cyngor yn adolygu gorchymynion atal dros dro interim yn rheolaidd? (Gweler paragraffau 90–94 o'r ddogfen ymgynghori.)

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Mae'r cynigion a amlinellir ym mharagraffau 90 i 94 o'r ddogfen ymgynghori yn ymddangos yn briodol.

Cwestiwn 8 – A ydych chi'n fodlon ar gynnwys y Gorchymyn arfaethedig yn Atodiad A? (Ceir crynodeb o'r Gorchymyn arfaethedig ym mharagraffau 96–140 o'r ddogfen ymgynghori.)

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Yn gyffredinol, mae'r Gorchymyn arfaethedig a geir yn Atodiad A yn briodol. Mae ystyriaethau ychwanegol a restrwyd gennym yng nghwestiynau 1 i 7 yn berthnasol hefyd i'r wybodaeth a geir yn Atodiad A.

Cwestiwn 9 – A ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad o'r effaith bosibl y gallai gorchymynion atal dros dro interim ei chael ar Bersonau Cofrestredig? (Gweler paragraffau 7.14–7.33 o'r asesiad effaith rheoleiddiol yn Atodiad B.)

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Mae'r dadansoddiad o'r effaith bosibl y gallai gosod GADD ei chael yn ymddangos yn briodol ac mae wedi ymdrin â'r materion posibl. Rydym yn cytuno bod unrhyw ataliad o ddyletswyddau yn niweidiol i enw da proffesiynol a phersonol Person Cofrestredig, hyd yn oed os caiff ei glirio o bob camwedd yn ddiweddarach. Mae o'r pwysigrwydd pennaf, felly, y caiff GADD ei osod dim ond pan ddilynir y gweithdrefnau a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori a bod y panel yn gofyn am gyngor gan yr heddlu pan fydd ffynhonnell yr honiad gan unigolyn neu barti heblaw am yr heddlu, y cyflogwr neu'r GDG.

Mae hefyd yn briodol cydnabod yr effaith y gallai GADD ei chael ar iechyd meddwl a lles y Person Cofrestredig ac aelodau ei deulu.

Cwestiwn 10 – A ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad o gost ariannol rhoi pŵer i'r Cyngor osod, adolygu a diddymu gorchmynion atal dros dro interim? (Gweler paragraffau 7.34–7.55 o'r asesiad effaith rheoleiddiol yn Atodiad B).

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Mae'r dadansoddiad a amlinellwyd ym mharagraffau 7.34 i 7.55 yn ymddangos yn briodol. Mae'n seiliedig ar ffigurau go iawn a rhagfynegiadau pe bai nifer yr achosion yn cynyddu'n sylweddol. Ar sail y dadansoddiad hwn, mae'n ymddangos yn annhebygol y byddai angen i CGA godi ei ffioedd cofrestru a fyddai'n gallu talu holl gostau cyfarfodydd GADD cychwynnol a chyfarfodydd adolygu o fewn ei gyllideb bresennol. Rydym yn cytuno, felly, ar sail y ffigurau a amlinellwyd yn y dadansoddiad, bod cost ariannol y GADD a'r broses adolygu yn un gymharol fach.

Cwestiwn 11 – A ydych chi'n cytuno â chasgliad ein dadansoddiad o gost a budd mai opsiwn 2, lle mae'r Cyngor yn cael y pŵer i osod, adolygu a diddymu gorchmynion atal dros dro interim, yw'r opsiwn a ffefirir? (Gweler Rhan 7 o'r asesiad effaith rheoleiddiol yn ei chyfanrwydd, a'r casgliad ym mharagraffau 7.62–7.64 o'r asesiad effaith rheoleiddiol yn Atodiad B).

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ychwanegol

Ar sail y manylion a geir yn rhan 7 o'r asesiad effaith rheoleiddiol, rydym yn cytuno mai opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Cwestiwn 12 – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai ein cynigion i roi pwerau i'r Cyngor osod, adolygu a diddymu gorchmynion atal dros dro interim, yn eu cael ar y Gymraeg ac, yn benodol, ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ychwanegol

Ym mharagraff 63 a 77, mae'r cynnig yn amlinellu'n glir y gellir cynnal unrhyw wrandawriad neu adolygiad trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ac y byddai hyn ar gais y Person Cofrestredig. Byddai angen i CGA sicrhau bod digon o aelodau panel ar gael ganddo ar gyfer y gwrandawriad cychwynol ac unrhyw adolygiad er mwyn eu galluogi i gynnal yr holl gyfarfodydd yn Gymraeg. Ar yr amod bod yr holl geisiadau gan Berson Cofrestredig i gynnal cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu bodloni, ni fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ni fyddai'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 13 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig i roi pwerau i'r Cyngor osod, adolygu a diddymu gorchmynion atal dros dro interim, yn eich barn chi:

- i) fel y byddant yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel na fyddant yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ychwanegol

Byddai angen bodloni'r amodau a amlinellwyd yng nghwestiwn 12 er mwyn gwneud yn siŵr bod yr holl Bersonau Cofrestredig yn cael cyfle i gyfranogi mewn cyfarfodydd a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg, os dyma oedd eu dewis iaith gyfathrebu.

Cwestiwn 14 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Rhodddwyd sylw yn y ddogfen adendwm i'n pryderon cychwynnol yn ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer ymestyn gorchymyn atal dros dro neu gyhoeddi gorchymyn newydd os nad yw'r ymchwiliad a'r gwrandawriad disgyblu wedi'u cwblhau o fewn cyfnod amser o 18 mis o'r dyddiad y cafodd y gorchymyn atal ei osod gyntaf.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych gadw eich ymateb yn ddienw, ticiwch y blwch yma: